

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru

10 Chwefror 2022

Annwyl Weinidog

Fframwaith Cyffredin Dros Dro: Caffael Cyhoeddus.

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr. Bu'r Pwyllgor yn trafod y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Caffael Cyhoeddus yn y Pwyllgor ar 9 Chwefror ac mae am geisio'r wybodaeth a ganlyn er mwyn llywio unrhyw argymhellion yn y dyfodol ar gynnwys terfynol y fframwaith. Esgusododd Cefin Campbell AS ei hun o'r drafodaeth oherwydd ei rôl fel Aelod Dynodedig.

Cyffredinol

1. Pam mae angen fframwaith ar gyfer y maes polisi hwn?
2. Nod Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol ym maes caffael. Pam nad yw'r egwyddor o reoli adnoddau cyffredin yn berthnasol i'r fframwaith hwn?

Cwmpas ar gyfer gwro

3. Sut bydd y llywodraethau'n penderfynu a yw cynnig ar gyfer polisi neu ddeddfwriaeth o fewn cwmpas prosesau penderfynu'r fframwaith?
4. I ba raddau y bydd modd gwro oddi wrth y fframwaith? A fydd y gallu i wyro oddi wrth y fframwaith yn fwy neu'n llai na'r gallu i wyro oddi wrth gyfraith yr UE?

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



5. Os bydd y gallu i wyro'n wahanol i'r gallu i wyro o dan gyfraith yr UE, pam hynny?
6. A fydd Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus arfaethedig Llywodraeth Cymru yn destun unrhyw waith ymgynghori neu benderfyniadau drwy'r fframwaith?
7. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â diwygiadau i gyfraith caffael drwy Fil Caffael arfaethedig y DU. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y byddai gwro oddi wrth gyfraith yr UE a ddargedwir ynghylch caffael yn ei chael ar randdeiliaid yng Nghymru?
8. Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o oblygiadau Bil Rheoli Cymorthdaliadau'r DU ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru?
9. Byddai'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r llywodraethau eraill dri mis cyn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol neu wneud is-ddeddfwriaeth. Beth yw goblygiadau hyn o ran cymhwysedd Llywodraeth Cymru a'r Senedd a pha effaith allai gwro ei chael ar bolisi caffael mewn ardaloedd trawsffiniol?

Rhwymedigaethau rhyngwladol

10. Pa rwymedigaethau rhyngwladol sy'n berthnasol i'r fframwaith hwn ac os bydd angen diwygio'r fframwaith yn y dyfodol i adlewyrchu rhwymedigaeth ryngwladol newydd, pa broses ddiwygio fyddai'n cael ei defnyddio?
11. A allai Llywodraeth Cymru gadarnhau pryd y disgwylir y Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol diwygiedig ar gyfer y pedair llywodraeth ac a oes unrhyw risgiau i'r fframwaith os na chytunir ar hyn?
12. Sut y bydd fforymau rhynglywodraethol a sefydlwyd gan y fframwaith yn rhyngweithio â grwpiau rhyngweinidogol ar fasnach ac ar Gytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng y DU a'r UE?
13. Pa gamau, os o gwbl, sy'n agored i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r fframwaith os nad yw'n cefnogi diwygiad gan Lywodraeth y DU i'w hatodlenni yn y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Masnach y Byd?

Trefniadau rhwng y DU a'r UE

14. A allai Llywodraeth Cymru egluro sut y caiff cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE mewn meysydd a gwmpesir gan y fframwaith eu cyfleu i Weithgor a Grŵp Cyswllt y fframwaith?

15. Mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn sefydlu nifer o bwyllgorau llywodraethu newydd. Pam nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf ac unig gyfarfod y Pwyllgor Masnach Arbenigol ar Gaffael Cyhoeddus?
16. A allai Llywodraeth Cymru egluro a gafodd canlyniadau'r cyfarfod hwnnw gyda'r UE eu cyfleu i'r fframwaith, y Gweithgor a'r Grŵp Cyswllt?
17. A allai Llywodraeth Cymru gadarnhau a fydd mecanweithiau'r fframwaith yn cael eu defnyddio i fonitro cyfraith caffael yr UE, ac a yw Llywodraeth Cymru yn cyflawni hyn ei hun neu mewn partneriaeth â llywodraethau eraill?

Llywodraethu a datrys anghydfodau

18. A ydych chi'n ystyried bod y system datrys anghydfod yn ddigon cadarn i ateb y diben arfaethedig a sut y bydd y fframwaith yn sicrhau bod anghydfodau'n cael eu datrys mewn da bryd ac nad oes oedi o ran gwneud penderfyniadau?

Tryloywder ac atebolrwydd

19. A wnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu ag unrhyw randdeiliaid yng Nghymru wrth ddatblygu'r fframwaith? Sut mae'r fframwaith yn adlewyrchu ymateb rhanddeiliaid?
20. Sut fydd y Senedd a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus y fframwaith a chyfrannu at y broses adolygu a diwygio?
21. Os bydd newidiadau yn y dyfodol, sut y bydd y Senedd yn cael gwybod amdanynt? Pa weithdrefn graffu a gaiff ei defnyddio mewn perthynas â'r newidiadau?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb cynnar i alluogi'r Pwyllgor i ystyried y materion ymhellach ac ymateb cyn y dyddiad cau ym mis Mawrth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Diolch

Cofion

Mark Isherwood

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

